

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Dachwedd 2015

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Meirion Owen, Siân Godbert, Marion Bettenev, Gareth Parry, Terry Bullock, Karen Pugh, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau Jim Boughton, Janet Charlton, Cyng. Elizabeth Roberts Cyngor BS Conwy.

Datgan diddordeb - Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Siân Godbert yng nghofnod [1.8] ond gadawodd y cyfarfod yn gynnar cyn i'r mater gael ei drafod.

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Hydref 2015

(1)Yr Heddlu

[a] Deallwyd gan SCHG Dean Cavey bod yr heddlu yn ceisio i Gyngor Sir Conwy osod dirwy yn y fan ar lle am neidio o Bont -y-Pair i'r afon gyda'r drosedd yn cael ei gweld yn wrthgymdeithasol.

[b] Cytunodd y SCHG i drafod gyda'i gydweithiwr y cwyn yn ddiweddar ynghylch goryrru gan gerbydau trwy'r pentref.

[1.1] Materion Ffyrdd/Ymestyn llinellau dwbl melyn ar yr A5 ym Mhentre' Du

Nodwyd cydnabyddiaeth gan y Cynulliad i ohebiaeth y Cyngor ynglŷn â chais i ymestyn y llinellau.

[1.2] Defilibrator

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair gan y trydanwr ynglŷn â gosod y defilibrator

[1.3] Creu Man Chwarae yng Nghae Llan

Nodwyd llythyr oddiwrth Mr William Hall yn mynegi pryder ynghylch y cynnig, ynghyd a sylwadau gan Ms Carol Blain yn amlinellu prosiect "ffitrwydd ar gyfer pob oed".

Penderfynwyd anfon sylwadau Ms Blain ymlaen i APCE i'w ystyried. Y Cadeirydd a'r Clerc i drefnu cyfarfod gyda Mr Wiilam Hall i drafod y mater ymhellach.

[1.4] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan Mr Glyn Jones a'i fod yn paratoi crynodeb

[1.5]] Goleuadau Ychwanegol/ Neuadd Goffa

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Cae Chwarae Pentre' Du

Deallwyd trwy'r Cyng. Terry Bullock bod y byrddau wedi eu symud o'r cae. Penderfynwyd aros am wybodaeth pellach gan Gyngor BS Conwy

[1.7] Creu Swigod/Cae Llan

[a] Dywedodd y clerc nad oedd ymateb wedi ei dderbyn i lythyr y Cyngor yn cynghori'r cwmni o'r gost am logi'r cae. Y Cadeirydd a'r Clerc i drafod gyda Mr William Hall.

[b] Eglurodd y clerc nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth APCE bod pryder bod yr hylif sydd yn disgyn ar y llwybr gyferbyn a'r Ganolfan Groeso yn creu arwyneb llithrig.

Y brif agenda

[1.8] Materion Cynllunio

Cynllun Trydan Hydro Fairy Glen

Croesawyd Mr Dan Yates i'r cyfarfod ac amlinellodd y sefyllfa ddiweddar ynglŷn y cynnig. Eglurodd y gallai'r Cyngor anfon sylwadau pellach os dymunir.

Penderfynwyd nad oedd sylwadau pellach i'r rhai a wnaed yng nghyfarfod o'r Cyngor ar yr 11eg Fai 2015, cofnod [2.5]

Nodwyd bod sesiwn galw heibio yng Ngwesty'r Waterloo o 3.00 o'r gloch y prynhawn hyd i 7.00 yr hwyr i drafod tynnu dŵr o'r afon fel rhan o'r cynnig.

[1.9] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Hydref 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Hydref 2015.

[2] Cytundeb Cynnal a Chadw Llwybr Aml Pwrpas

Eglurodd y clerc bod y cytundeb yn dod i ben yn niwedd y flwyddyn, a'i fod wedi trefnu i gwrdd Swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru i drafod y mater. Y clerc i i adrodd ymhellach yn dilyn trafodaeth gyda CNC.

[2.1] Nadolig Betws-y-Coed

Nodwyd y digwyddiadau niferus a gynigwyd gan Mrs Chris Crawley ar gyfer Nadolig Betws-y-Coed.

[2.2] Mainc ger y Llwybr Cyhoeddus/Clwb Golf

Cyfeiriodd y Cyng. Gareth Parry at y fainc ger y Llwybr cyhoeddus yn ymyl y cwrs golf, sydd yn werth i'w gwarchod. Y clerc i gysylltu gyda Gwyn Lloyd i gael golwg.

[2.3] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Cyngor BS Conwy, gwybodaeth ynglŷn â chonsesiwn parcio.

[b] Cyngor BS Conwy, gwobrwyon chwaraeon.

[c] Dogfen ymgynghorol Teithio Gweithgar Cymru.

Cadeirydd_____